**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Mai 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | ADOLYGIAD AC YMGYNGHORIAD GWASANAETHAU GOFAL MEWNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r canlynol –*<br><br>*(a) Hafan Deg (y Rhyl) – Bod y cyngor yn archwilio partneriaeth posibl gyda sefydliad allanol gyda golwg ar drosglwyddo'r adeilad iddynt, comisiynu gwasanaeth gofal dydd o fewn yr adeilad ac, yn ogystal â hynny, alluogi asiantaethau 3ydd sector i ddarparu gweithgareddau ymyrryd cynnar ar gyfer pobl hŷn a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, cefnogi annibyniaeth a hybu gwydnwch. Dylai'r gwaith mewn cysylltiad â'r opsiwn hwn gynnwys cost, ansawdd y gofal a dadansoddiad darpariaeth iaith Gymraeg rhwng y darparwr presennol ac unrhyw wasanaeth posibl yn y dyfodol.*<br><br>*(b) Dolwen (Dinbych) – Bod y cyngor yn archwilio partneriaeth bosibl gyda sefydliad allanol gyda'r bwriad o drosglwyddo'r adeilad a'r gwasanaeth cyfan iddynt, tra'n sicrhau bod Dolwen wedi'i gofrestru i ddarparu gofal preswyl a dydd EMH. Dylai'r gwaith mewn cysylltiad â'r opsiwn hwn gynnwys cost, ansawdd y gofal a dadansoddiad darpariaeth iaith Gymraeg rhwng y darparwr presennol ac unrhyw wasanaeth posibl yn y dyfodol.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) Awelon (Rhuthun) – bod y Cyngor yn ystyried yn fanwl y tri opsiwn a gyflwynwyd mewn perthynas â'r sefydliad hwn a bod y gwaith mewn perthynas â'r dewisiadau hyn yn cynnwys costau cymharol, ansawdd y gofal a dadansoddiad darpariaeth iaith Gymraeg rhwng y gwasanaeth presennol a phob un o'r tri opsiwn.*<br><br>*Yr opsiynau yw –*<br><br>• ***Opsiwn 1** (yr opsiwn mae'r Cabinet yn ei ffafrio): Bydd y Cyngor yn ymuno mewn partneriaeth â pherchennog Llys Awelon i ddatblygu mwy o fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle, gan ddisodli'r ddarpariaeth breswyl a chymunedol bresennol.  Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cabinet wedi cytuno na fydd yn rhaid i unrhyw breswylydd adael os nad ydynt eisiau gadael a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn y ddarpariaeth breswyl*<br><br>• ***Opsiwn 2:** I weithio mewn partneriaeth gyda landlord cymdeithasol cofrestredig, gwasanaethau iechyd a'r 3ydd sector i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau, trosglwyddo hanner yr adeilad i ddatblygu mwy o fflatiau gofal ychwanegol, o bosibl fel estyniad i Lys Awelon, gan ddefnyddio'r gweddill fel uned breswyl fach y gellid ei defnyddio i ddiwallu'r angen am ofal seibiant a sicrhau nad oes rhaid i unrhyw breswylydd presennol symud oni bai eu bod yn dewis gwneud hynny.*<br><br>• ***Opsiwn 3: (Awgrym gan rai Aelodau)** Dylai'r Cyngor ymgysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ymchwilio i ba mor ymarferol yw datblygu capasiti gofal nyrsio ychwanegol yn Rhuthun a fyddai yn ei dro yn gwella'r* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *cynnig i bobl hŷn yn ardal Rhuthun.*<br><br>*(d) Cysgod y Gaer (Corwen) – Mae'r cyngor yn edrych ar ymuno mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol (gan gynnwys BCU a'r 3ydd sector) i ddatblygu'r safle i 'ganolfan gymorth' sy'n cynnig cyfleusterau preswyl a gofal ychwanegol yn ogystal â gwasanaeth allgymorth gofal cartref a gwasanaeth cefnogi i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol phoblogaeth ehangach Corwen a'r ardal gyfagos; ac*<br><br>*(e) O gwblhau'r uchod, cyflwynir dadansoddiad o bob un o'r opsiynau mewn perthynas â phob sefydliad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad i'w archwilio cyn gwneud penderfyniad gan y Cabinet, gyda bob un yn cael ei gyflwyno fel y caiff ei ddatblygu.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **8** | DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL A CHOMPOSTIO GWASTRAFF GWYRDD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu un contract ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol ac un contract ar gyfer compostio gwastraff gwyrdd i'r tendrwyr a enwir fel y manylwyd yn yr adroddiad.* |